# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 12 Mawrth 2008

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Ieuan Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a June Jones, (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub), Dr John Jones Morris, (Buddiannau Hamdden)

**Hefyd yn Bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), John Hughes (Harbwr Feistr Tros Dro), Malcolm Humphreys (Swyddog Traethau) ac Ioan Hughes (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Richard Parry Hughes, (Cyngor Gwynedd), David Eastwood, ((Buddiannau'r Harbwr), Robert Owen, (Buddiannau Masnachol), David McLean, (Pwyllgor Harbwr Port)

## CROESO

Ar ddechrau'r cyfarfod croesawyd Y Swyddog Traethau, Malcolm Humphreys, a oedd yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor am y tro cyntaf.

## GWAELEDD

Cyfeiriwyd at waeledd diweddar Eifion Davies, un o weithwyr yr Amgueddfa Forwrol, a dymunwyd adferiad llwyr a buan iddo.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Medi 2007 fel rhai cywir.

## 2. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cyfeiriwyd at gyflwr y bibell arllwys dŵr arwyneb ym Morth y Gest a phwysleisiwyd y dylid cadw golwg ar y sefyllfa.

Cadarnhawyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod y swyddogion yn rhannu pryderon yr aelodau a'u bod yn gohebu â Dŵr Cymru fel y gellir trafod y sefyllfa. Awgrymwyd gan y swyddog ei bod yn amserol cysylltu â Dŵr Cymru gan eu bod yn gweithio yng Nghricieth ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.**

## 3. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, ac ystyriwyd yr amrywiol eitemau'n unigol:

**Cynnal a Chadw**

Adroddwyd fod llawer o waith cynnal a chadw wedi ei wneud yn Harbwr Porthmadog yn ystod misoedd y gaeaf fel darpariaeth ar gyfer prysurdeb y tymor gwyliau.

**Ffioedd a Thaliadau**

Cyflwynwyd gwybodaeth fanwl ar ffioedd a thaliadau harbwr Porthmadog. 'Roedd bwriad i gynyddu 3% ar daliadau i rai sy'n byw'n barhaol yng Ngwynedd gyda thaliadau'r rhai sy'n byw tu allan i'r sir yn cynyddu 4%. Nodwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion a wneir i warchod diddordebau lleol.

Adroddwyd fod disgwyl i chwyddiant ar gyfer pob harbwr yng Ngwynedd yn 2008/09 fod yn 3.97% sy'n cyfateb i gynnydd o £11,270 yn y targed incwm. Pwysleisiwyd y bydd hyn yn gryn her.

Cyflwynwyd gwybodaeth am daliadau ar gyfer lansio a chofrestru Badau Dŵr Personol, ac ar gyfartaledd bydd y rhain yn cynyddu 7%.

Derbyniwyd mai ychydig o gychod sy'n cael eu lansio ym Mhorthmadog er bod y llithrfa wedi ei hymestyn. Er hyn adroddwyd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod rhai fel aelodau o'r Clwb Rhwyfo yn ei defnyddio a bod ymestyn y llithrfa wedi bod yn gynllun gwerth chweil.

Cyfeiriwyd hefyd at y tâl mynediad o £3 i'r traeth ym Morfa Bychan a gaiff ei hawlio gydol tymor yr haf. Derbyniwyd fod hyn yn rhesymol a diolchwyd i'r Swyddog Traethau am y gwaith a wneir yno.

O safbwynt ffi cofrestru, eglurwyd fod y ffi yn £15 wrth wneud trwy'r post ac £20 yn y swyddfa. Sefydlwyd y drefn yma gan fod rhai yn rhoi cyfeiriad ffug a bod ymdrin â'r mater drwy'r post yn dileu hyn.

Bydd cyfanswm y cynnydd yn nharged incwm yr Uned Forwrol ar gyfer 2008-09 yn £62,040, a bydd hyn yn cynyddu cyfanswm targed incwm yr Uned i £2,070,880. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd fod hyn yn cynnwys popeth o fewn y gwaith morwrol ond fod y Parciau Gwledig ar wahân .

**Trwydded Cychod Pleser**

Cyflwynwyd gwybodaeth am y rheolau a ddylid eu dilyn wrth ryddhau Trwydded Cwch Pleser Perchennog.

Er na dderbyniwyd cais am drwydded o'r fath ym Mhorthmadog ers rhai blynyddoedd, mae'r hawl i'r cychod weithredu o'r harbwr. O ganlyniad, rhaid i'r Uned Forwrol sicrhau y byddai unrhyw gais yn cael sylw teg.

Cyflwynwyd gwybodaeth bellach mewn cysylltiad ag archwilio badau a'r offer gofynnol ar gyfer perchnogion cychod mewn dyfroedd catogoredig. Rhoddwyd cyfle i aelodau leisio barn ar yr amrywiol faterion a chefnogwyd argymhellion y swyddogion.

**Cyllidebau**

Cyflwynwyd gwybodaeth am sefyllfa ariannol Harbwr Porthmadog ar 31 Ionawr 2008. Nodwyd mai targed incwm yr harbwr ar gyfer 2007-08 oedd £75,020 a bod yr incwm a gafwyd hyd ddiwedd Ionawr 2008 yn £76,159. Ni ddisgwylir derbyn incwm sylweddol yn ystod Chwefror a Mawrth.

Adroddwyd fod gwariant ar rai materion yn uwch na'r gyllideb. 'Roedd hyn yn achosi pryder gan fod disgwyl gwariant pellach yn ystod Chwefror a Mawrth. Pwysleisiwyd fod buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud ym Mhorthmadog a bod gorwariant o tua £1,500.

Nodwyd y bydd yn rhaid darganfod yr arian yma a rhybuddiwyd y bydd 2008-09 yn flwyddyn anodd i'r Uned Forwrol ac yn arbennig felly i harbwr Porthmadog, Pwllheli, Aberdyfi ac Abermaw. Pwysleisiwyd y bydd yn rhaid ymdrin â'r gorwariant a'r diffygion ar incwm mewn ambell harbwr, yn arbennig o gofio'r sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu'r Cyngor.

Derbyniwyd £100,000 yn sgil taliadau parcio ar Draeth y Greigddu. 'Roedd hwn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai'r rheswm amlwg am hyn oedd y tywydd.

**Mordwyo**

Mynegwyd cryn falchder gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn y ffaith fod y rhan helaethaf o'r cymhorthion mordwyo yn arwain i Harbwr Porthmadog wedi aros ar eu safleoedd yn ystod rhan gyntaf y gaeaf. Cafwyd trafferthion yn y gorffennol, ond 'roedd adroddiad cadarnhaol iawn eleni.

Bydd angen ail-osod bwi rhif 5, (ochr starbwrd ar ei safle a gwneir hyn pan geir tywydd ffafriol. Gosodwyd un llusern newydd ar gost o £1,000 ac yr oedd y swyddog yn fodlon bod y system llusernau, a ddefnyddiwyd fel arbrawf, wedi gweithio'n ffafriol a chaiff y mater sylw pellach yn ddiweddarach.

Yn unol â chais Sefydliad y Badau Achub ac aelodau'r pwyllgor yma gosodwyd dau fwi ychwanegol yn y sianel sy'n arwain at Bortmeirion. Nodwyd fod newidiadau parhaol yn y sianel gydol y gaeaf wedi achosi trafferthion wrth geisio cynnal a chadw'r llwybr mordwyo.

Ychwanegwyd fod holl angorfeydd yr harbwr wedi eu harchwilio a'u cynnal yn barod ar gyfer yr haf .Bydd y gost o gynnal a chadw angorfeydd a chymhorthion mordwyo yn ystod y gwanwyn yn £2,800, a chaiff safon y gwaith a wnaed hefyd ei archwilio'n fanwl.

Nodwyd fod £5,000 wedi ei wario ar waith cynnal a chadw yn Harbwr Porthmadog.

**Gweithwyr**

Adroddwyd fod nifer o swyddogion yr Uned Forwrol ar secondiad o fewn rhannau eraill o'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Yn ychwanegol bydd yr harbwr feistr, sydd wedi ei leol ym Mhorthmadog ar hyn o bryd yn symud i Abersoch ddiwedd Mawrth.

Cadarnhawyd y bydd Harbwr Feistr yn gyfrifol am Borthmadog gydol yr haf. Diolchodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i'r holl weithwyr am eu llafur cydwybodol a'r modd y maent yn llwyddo i sicrhau gwasanaeth o safon uchel heb greu unrhyw anhawster i'r cwsmer.

Ategwyd hyn gan yr aelodau, a nodwyd fod aelodau o'r cyhoedd yn cyfeirio at y gwasanaeth o safon yn aml.

Diolchodd yr Harbwr Feistr i bawb am y gefnogaeth a gafodd gydol ei gyfnod ym Mhorthmadog.

**Cwch Rheoli Harbwr**

Adroddwyd fod cwch pŵer wedi cael ei brynu i'w defnyddio i reoli'r harbwr. Defnyddiwyd y cwch presennol yn llwyddiannus ers 1998,

Disgwylir y bydd y cwch newydd yn cael ei ddefnyddio cyn y gwyliau banc cyntaf ym mis Mai. Bydd y gost o sicrhau y bydd y cwch yn gweithredu tua £21,000.

**Materion Cyffredinol**

Adroddwyd fod y system raciau cychod gweini, a osodwyd mewn lle yn gynnar yn 2007, wedi bod o fudd. Bydd y ffens ddiogelwch yn cael ei ymestyn yn y gwanwyn ar gost o tua £1,800, ac eglurwyd y bydd hyn yn tacluso'r safle yn ogystal â gwella gwasanaeth.

Cyfeiriwyd at ddigwyddiad yn ystod mis Ionawr 2008 pan dderbyniwyd gwybodaeth am barsel o gyffuriau'n cael ei olchi i'r lan yn Nhywyn

.Galwyd ar y cyhoedd i fod yn hynod ofalus ac i roi gwybodaeth i'r heddlu am unrhyw ymddygiad amheus.

Rhoddwyd sylw arbennig i gwynion a dderbyniwyd ynglŷn â 'quad bikes' yn cael eu defnyddio ar dwyni tywod yn ystod y gaeaf. Nodwyd bod twyni tywod yn fannau o ddiddordeb gwyddonol arbennig a'i bod yn drosedd malurio'r tir.
Adroddwyd fod gweithwyr yr Uned wedi bod ar ddyletswydd ar y traethau am amser ychwanegol am gyfnod o rai wythnosau, er bod gwaith arall yn galw,

Bydd yr Uned Forwrol yn galw am gefnogaeth bellach oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru fel y gellir sicrhau rheolaeth gadarnach ar y twyni ar benwythnosau, yn arbennig yn ystod y gaeaf.

Mynegwyd pryder gan aelodau a oedd wedi derbyn cwynion am y beiciau, ac wedi eu gweld ar y twyni eu hunain. Ond pwysleisiwyd fod y gwaith a wnaed, a'r cydweithrediad a sefydlwyd gyda'r heddlu yn cael ei werthfawrogi, a bod y sefyllfa'n gwella. Diolchwyd am yr arwyddion a osodwyd yn atgoffa pawb o'r rheolau, er bod rhai yn dewis eu hanwybyddu.

I sicrhau rheolaeth well ar ardal y traeth, caiff gweithiwr tymhorol ychwanegol ei benodi i ddechrau'r gwaith ar 19 Mawrth. Bydd dau weithiwr pellach ar gael i gynorthwyo fel bo angen.

Cyfeiriwyd at achlysuron diweddar pryd y daethpwyd o hyd i grwbanod ar rai o'r traethau. Nodwyd fod y cyhoedd yn cael eu cynghori i beidio cyffwrdd y crwbanod, ond i roi gwybodaeth i'r awdurdodau.

Cadarnhawyd fod cais wedi ei wneud gan Welsh Highland Railway Ltd i adeiladu ffordd gerdded ychwanegol uwchben dŵr Harbwr Porthmadog. Nid oedd y swyddog yn rhagweld y byddai'r ffordd gerdded yn creu unrhyw drafferth o safbwynt morwrol.
Derbyniwyd hyn gan nodi y byddai dyluniad a manylion eraill ynglŷn â'r bont yn faterion cynllunio.
Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fod cael adeiladau gwell i weithwyr ger y mynedfeydd i Draeth Morfa Bychan yn cael ei ystyried fel blaenoriaeth. Disgwylir gallu cwblhau'r gwaith o fewn dwy i dair blynedd.

**Is-ddeddfau Harbwr**

Adroddwyd fod yr Is-ddeddfau drafft wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Harbwr, ers peth amser bellach ond nad oeddynt wedi eu cadarnhau gan Lywodraeth y Cynulliad. Ychwanegwyd fod Uned Gyfreithiol y Cyngor yn trafod y mater gyda chynrychiolwyr Llywodraeth y Cynulliad, ond fod dryswch wedi codi'n ddiweddar gyda Llywodraeth y Cynulliad yn nodi amheuon ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am y deddfau.

Er bod peth datblygiad, mynegwyd cryn anfodlonrwydd gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gan fod y mater wedi bod ar y gweill ers rhai blynyddoedd bellach. Ac fe fawr obeithir y bydd yr Uned Gyfreithiol yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith o gadarnhau is-ddeddfau Harbwr Porthmadog fel mater brys.

**Clwb Hwylio**

Derbyniwyd cais oddi wrth Glwb Hwylio Madog a oedd yn dymuno cael estyniad o 36 medr ar eu system pontwns i gyfeiriad Pont yr Harbwr. Mewn llythyr, nodwyd ganddynt na fyddai'r estyniad yn amharu ar y llithrfa.

Cytunwyd mai mater i'r Pwyllgor Ardal fyddai hyn a byddai angen cael cynlluniau manwl. Galwyd ar aelodau i gysylltu â'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o fewn mis i leisio barn ar y cais.

Nodwyd nad oedd y Cynghorwyr Ieuan Roberts a Selwyn Griffiths wedi cymryd rhan yn y drafodaeth yma.

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 7:15pm